CYNLLUN STRATEGOL CYMWYSTERAU CYFFREDINOL

GORFFENNAF 2017

Cynnwys

Trosolwg 3

Maes ffocws 1 4
Sicrhau safonau

Maes ffocws 2 5
Gwerthuso newid

Maes ffocws 3 6
Gwella dealltwriaeth y cyhoedd

Maes ffocws 4 7
Cynyddu nifer y cymwysterau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael

Maes ffocws 5 8
Gwneud newidiadau yn y dyfodol mewn modd cynyddrannol

Her 1 9
Dyfodiad cymwysterau TGAU a Safon Uwch sydd wedi'u cynllunio'n benodol i Gymru

Her 2 10
Cyflwyno cymwysterau newydd

Her 3 11
Strwythur newidiol y farchnad cymwysterau cyffredinol

Her 4 12
Effaith bosibl y cwricwlwm newydd i Gymru ar gymwysterau

Mesur cynnydd 13

Trosolwg
Cynllun Strategol
Cymwysterau Cyffredinol

Mae'r cynllun hwn yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer rheoleiddio cymwysterau cyffredinol (TGAU, Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru) dros y tair i bum mlynedd nesaf. Mae hefyd yn nodi sut y byddwn yn asesu cynnydd tuag at gyflawni ein nodau.

Rydym wedi strwythuro ein cynllun o amgylch pum prif faes ffocws strategol.

Rydym hefyd wedi nodi'r prif heriau rydym yn disgwyl eu hwynebu dros y tair i bum mlynedd nesaf, sydd wedi dylanwadu ar y broses o ddatblygu ein strategaeth.

Byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

1. Sicrhau safonau
2. Gwerthuso newid
3. Gwella dealltwriaeth y cyhoedd
4. Cynyddu nifer y cymwysterau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael
5. Gwneud newidiadau yn y dyfodol mewn modd cynyddrannol.

Ein prif heriau fydd:

1. Dyfodiad cymwysterau TGAU a Safon Uwch sydd wedi'u cynllunio'n benodol i Gymru
2. Rheoli'r broses o gyflwyno cymwysterau newydd
3. Strwythur newidiol y farchnad cymwysterau cyffredinol
4. Effaith bosibl y cwricwlwm newydd i Gymru ar gymwysterau.

Maes ffocws **1** 2 3 4 5

Sicrhau safonau

Dylai dysgwyr yng Nghymru fod yn hyderus bod y cymwysterau y maent yn astudio ar eu cyfer yr un mor drwyadl a heriol â'r rhai sydd ar gael mewn gwledydd eraill. Rydym am i gymwysterau cyffredinol yng Nghymru gael eu cydnabod yn eang fel mesur dibynadwy, sicr a theg o gyflawniad dysgwyr.

Yn y tymor byr, byddwn yn parhau i oruchwylio'r broses a ddefnyddir gan gyrff dyfarnu i sicrhau safonau teg a phriodol, o un gyfres arholiadau i'r nesaf. Yn y tymor hwy, byddwn yn adolygu'r gwaith hwn i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda chyrff eraill sy'n rheoleiddio cymwysterau TGAU a Safon Uwch er mwyn cytuno ar safonau a ffyrdd o weithio cyffredin, gan gynnwys dulliau o sicrhau y gellir cymharu graddau dros amser.

Ar CBAC y bydd ein gwaith monitro yn canolbwyntio, gan mai ef fydd yr unig gorff sy'n cynnig y rhan fwyaf o gymwysterau TGAU a Safon Uwch yng Nghymru, yn ogystal â Bagloriaeth Cymru. Byddwn yn cynnal rhaglen o adolygiadau thematig er mwyn deall sut mae'n gweithredu, gan ddechrau gydag adolygiad sy'n canolbwyntio ar hyder mewn marcio. Drwy'r rhaglen hon, byddwn yn nodi meysydd o risg bosibl a chyfleoedd i wella'n barhaus. Byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau ac unrhyw gamau a gymerwn.

Maes ffocws 1 **2** 3 4 5

Gwerthuso newid

Bu newid sylweddol i gymwysterau cyffredinol yn ddiweddar. Bydd angen adolygu'r cymwysterau newydd yn rheolaidd er mwyn gweld sut maent yn perfformio a gwerthuso eu heffaith.

Byddwn yn llunio rhaglen ymchwil a monitro a fydd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- asesiadau nas cynhelir drwy arholiad
- cofrestru cynnar a lluosog ar gyfer arholiadau TGAU diwygiedig
- effaith dull mwy ymarferol o astudio llythrennedd a rhifedd
- ymgorffori safbwynt Cymreig.

Byddwn hefyd yn edrych ar newidiadau yn y nifer a'r ystod o gymwysterau cyffredinol a gymerir.

Byddwn yn adolygu dyluniad newydd Bagloriaeth Cymru, gan gynnwys y cymwysterau sy'n dod o dan y Dystysgrif Her Sgiliau, a'r modd y cânt eu cyflwyno. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad technegol o'r model asesu a dadansoddiad ansoddol o farn rhanddeiliaid, ar sail eu profiadau o'r cymwysterau newydd. Byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau ac yn gweithio gydag eraill i ystyried sut i atgyfnerthu Bagloriaeth Cymru.

Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddeall y gwersi y gellir eu dysgu o brofiad diwygio cymwysterau cyffredinol er mwyn llywio'r ffordd y caiff newidiadau yn y dyfodol eu cynllunio a'u rheoli.

Maes ffocws 1 2 **3** 4 5
Gwella dealltwriaeth y cyhoedd

Mae rhoi gwybodaeth gywir a dibynadwy am gymwysterau a'r system gymwysterau yn rhan hanfodol o'r hyn a wnawn. Er mwyn ennyn hyder mewn cymwysterau cyffredinol, rydym o'r farn bod angen i'r cyhoedd wybod sut maent yn gweithio a deall y rhan maent yn ei chwarae yn y system addysg.

Byddwn yn ffynhonnell ddibynadwy o wybodaeth a chyngor i bawb yng Nghymru sydd â diddordeb mewn cymwysterau. Rydym am egluro:

- ein dull o reoleiddio'r cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau cyffredinol;
- sut y caiff cymwysterau eu cynllunio, eu hasesu a'u dyfarnu;
- rolau a chyfrifoldebau gwahanol sefydliadau sy'n rhan o'r system gymwysterau, gan gynnwys rhai Cymwysterau Cymru, cyrff dyfarnu, ysgolion, colegau, Llywodraeth Cymru, consortia addysg rhanbarthol ac Estyn.

Byddwn yn defnyddio ymgyrchoedd gwybodaeth i gyrraedd ein cynulleidfaoedd targed a chodi ymwybyddiaeth o'n gwefan fel ffynhonnell hanfodol o wybodaeth.

Byddwn yn ceisio ac yn gwrando ar farn myfyrwyr a staff addysgu er mwyn deall eu profiad o'r system gymwysterau. Bydd hyn yn ein helpu i roi'r wybodaeth gywir iddynt a diwallu eu hanghenion.

Byddwn yn parhau i weithio gyda phrifysgolion a chyrff megis UCAS i sicrhau dealltwriaeth o'r cymwysterau cyffredinol sydd ar gael yng Nghymru, fel eu bod yn parhau i sicrhau mynediad i addysg uwch. Byddwn yn rhoi gwybod i ysgolion a cholegau am farn prifysgolion er mwyn helpu i ennyn hyder a mynd i'r afael ag unrhyw gamsyniadau.

Byddwn hefyd yn cynhyrchu gwybodaeth ar gyfer cyflogwyr a'u cynrychiolwyr am y cymwysterau cyffredinol sydd ar gael yng Nghymru, eu gwerth a'u perthynas â'r cymwysterau sydd ar gael mewn gwledydd eraill.

Maes ffocws 1 2 3 **4** 5

Cynyddu'r nifer o gymwysterau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael

Rydym am i'r holl gymwysterau cyffredinol a gynigir yng Nghymru fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae cymwysterau TGAU a Safon Uwch a ddatblygwyd yn benodol i Gymru, a Bagloriaeth Cymru, eisoes yn cael eu cynnig yn y ddwy iaith gan CBAC. Caiff cymwysterau TGAU a Safon Uwch mewn pynciau eraill, a astudir gan niferoedd cymharol isel o ddysgwyr yng Nghymru, eu cynnig gan ystod o gyrff dyfarnu.

Mae rhai – ond nid pob un – o'r rhain hefyd yn cael eu cynnig yn y ddwy iaith. Wrth i'n gwaith fynd rhagddo, byddwn yn ystyried ffyrdd o gynyddu nifer y cymwysterau y gellir astudio ar eu cyfer yn y ddwy iaith.

Byddwn yn parhau i dargedi ein defnydd o arian grant i helpu cyrff dyfarnu i dalu am gostau ychwanegol sydd yn gysylltiedig â darparu cymwysterau yn y ddwy iaith.

Byddwn yn cynnig cyngor i gyrff dyfarnu ynglŷn â sut y gallent ddatblygu a sicrhau ansawdd ei ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Byddwn yn cymryd camau i helpu cyrff dyfarnu i adnabod unigolion â'r cyfuniad priodol o sgiliau asesu a sgiliau Cymraeg.

I flaenoriaethu ein hymdrechion, byddwn yn gweithio gydag ysgolion a cholegau i nodi meysydd lle mae galw ar hyn o bryd a lle y bydd galw yn y dyfodol.

Wrth wneud unrhyw newidiadau i gymwysterau cyffredinol yn y dyfodol, byddwn yn cynllunio o'r cychwyn cyntaf i sicrhau y gellir astudio ar eu cyfer drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg fel rhan o'r newidiadau.

Gwneud newidiadau yn y dyfodol mewn modd cynyddrannol

Rydym am ganiatáu amser i gymwysterau sydd newydd eu diwygio ymsefydlu ac i athrawon, ysgolion a cholegau ymgyfarwyddo â'u cyflwyno.

Rydym o'r farn mai modd cynyddrannol fydd y ffordd orau o wneud newidiadau yn y dyfodol, ar sail tystiolaeth. Byddwn yn ystyried yr angen am newidiadau fesul pwnc a chynnwys rhanddeiliaid wrth wneud penderfyniadau a chynllunio. Wrth wneud newidiadau, byddwn yn ceisio cadw'r hyn sy'n gweithio'n dda o'r cymwysterau presennol. Lle y bo'n bosibl, byddwn yn osgoi gwneud llawer o newidiadau ar yr un pryd.

Nid yw hyn yn golygu y byddwn yn hunanfodlon ynglŷn â'r ffordd y caiff cymwysterau cyffredinol eu cynllunio a'u hasesu. Byddwn yn defnyddio gwaith ymchwil i werthuso effaith cymwysterau presennol, i ystyried ffyrdd amgen o wneud pethau ac i benderfynu a oes angen newid.

Mae Llywodraeth Cymru'n arwain y gwaith o ddatblygu cwricwlwm newydd i Gymru. Byddwn yn sicrhau ein bod yn chwarae ein rhan i'r eithaf yn y gwaith hwn er mwyn i ni allu deall y goblygiadau posibl i gymwysterau cyffredinol. Byddwn yn gweithio gydag eraill sy'n rhan o'r system er mwyn sicrhau bod gan athrawon yr adnoddau priodol a'u bod yn barod i ddarparu'r cymwysterau newydd pan fyddant yn cael eu cyflwyno. Byddwn yn cynllunio ein gwaith ymchwil i helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm newydd.

Pan fydd angen newid cymwysterau, byddwn yn sicrhau bod y newidiadau wedi'u cynllunio'n drylwyr a'u bod yn caniatáu digon o amser i'r system addysg baratoi ac addasu.

Her **1** 2 3 4

Symud i gymwysterau cyffredinol a gynlluniwyd i Gymru

Bydd y rhan fwyaf o gymwysterau TGAU a Safon Uwch a gynigir yng Nghymru yn wahanol i gymwysterau a gynigir yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac yn cael eu dyfarnu'n annibynnol arnynt.

Nid yw'r gwahaniaeth hwn yn broblem ynddo'i hun, ond mae'n golygu bod yn rhaid i ni wneud y canlynol:

- sicrhau bod y cymwysterau a reoleiddiwn yn rhai dibynadwy ac yn fodd i symud ymlaen i addysg bellach a'r byd gwaith;
- gweithio gydag eraill i sicrhau bod digon o adnoddau addysgu a dysgu ar gael i gyflwyno cymwysterau newydd yn llwyddiannus;
- cynnal ystod o bynciau TGAU a Safon Uwch, drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, y gall myfyrwyr ddewis ohonynt.

Her 1 **2** 3 4

Cyflwyno cymwysterau newydd

Gall cyflwyno cymwysterau newydd gynnig cyfleoedd i wella, ond gall hefyd roi mwy o bwysau ar y system. Rhaid i gyrff dyfarnu, ysgolion a cholegau addasu i gyflwyno'r cymwysterau newydd.

- Rhaid i ysgolion a cholegau addysgu'r grŵp olaf o ddysgwyr a oedd yn astudio ar gyfer y cymhwyster blaenorol ochr yn ochr â'r grŵp cyntaf i astudio ar gyfer y cymhwyster newydd.
- Rhaid i gyrff dyfarnu barhau i gynnig y cymwysterau presennol wrth fuddsoddi yn y gwaith o ddatblygu rhai newydd. Mae'n rhaid iddynt hefyd gynnal safonau rhwng yr hen fanylebau a'r rhai newydd, sy'n her dechnegol.
- Ein rôl yw sicrhau bod y rhai sy'n astudio ar gyfer y cymwysterau newydd yn cael eu trin yn deg ac nad ydynt o dan fantais nac anfantais yn ddiangen fel y cyntaf i sefyll yr arholiadau newydd.

Her 1 2 **3** 4

Strwythur newidiol y farchnad cymwysterau cyffredinol

Un o ganlyniadau diwygio cymwysterau cyffredinol yw bod y cymwysterau TGAU a Safon Uwch a gynlluniwyd yn benodol i Gymru bellach yn cael eu cynnig gan un corff dyfarnu: CBAC. CBAC hefyd yw'r unig gorff dyfarnu sy'n cynnig Bagloriaeth Cymru.

Mae elfen o risg yn gysylltiedig â dibynnu'n fwy ar un corff dyfarnu. Gallai'r cyhoedd golli hyder, er enghraifft, pe bai diffyg cystadlu neu reoleiddio effeithiol yn arwain at ganfyddiad bod ansawdd cymwysterau neu eu gwerth am arian yn gostwng dros amser.

Fodd bynnag, mae hefyd lawer o fanteision i fodel marchnad symlach, yn enwedig mewn system o'r maint â'r un sydd gennym yng Nghymru:

- gellir targedu deunyddiau hyfforddiant a chymorth yn effeithlon ac yn effeithiol;
- gellir mynd i'r afael â phryderon neu broblemau yn gyflym;
- gellir cynnal safonau yn hyderus;
- gellir sicrhau cydraddoldeb rhwng y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg.

Yr her i ni yw gwneud yn siŵr bod ein dull rheoleiddio yn effeithiol er mwyn gwireddi'r manteision hyn.

Her 1 2 3 **4**

Effaith bosibl y cwricwlwm newydd i Gymru ar gymwysterau

Mae datblygu cwricwlwm cenedlaethol newydd i Gymru yn debygol o gael effaith ar gymwysterau cyffredinol dros y blynyddoedd nesaf.

Nid ydym yn gwybod eto i ba raddau y bydd cymwysterau presennol yn gyson â'r cwricwlwm newydd nac, felly, faint y bydd angen eu newid. Wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei ddatblygu ac wrth i'r atebion i'r cwestiynau hyn ddod yn gliriach, byddwn yn cadarnhau ac yn cyfleu'r goblygiadau tebygol i gymwysterau.

Mesur cynnydd

Byddwn yn gwerthuso pob un o'r meysydd ffocws yn y strategaeth hon er mwyn nodi i ba raddau y mae ein gweithgarwch wedi llwyddo i gyflawni ein nodau. Byddwn yn gofyn am adborth parhaus ar ein gwaith ac yn ystyried sut y gallwn wella ein dulliau gweithredu.

Beth rydym am ei gyflawni	Dangosyddion llwyddiant
Dealltwriaeth	Mae athrawon ac eraill sy'n defnyddio cymwysterau cyffredinol yn dibynnu arnom fel ffynhonnell gredadwy o wybodaeth.
Ymgysylltu	Cawn ein hystyried yn sefydliad cydweithredol a hawdd mynd ato sy'n ymateb i bryderon y rhai yn y system gymwysterau.
Hyder y cyhoedd	Caiff cymwysterau cyffredinol a gynllunnir i Gymru a'u sefyll yma eu hystyried yn fesurau dibynadwy o gyrhaeddiad gan golegau, prifysgolion, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr ledled y DU ac yn rhyngwladol.
Sefydlogrwydd	Rhoddir amser i gymwysterau cyffredinol ymsefydlu. Cyn cyflwyno newidiadau pellach, rydym yn cytuno ar, ac yn cyfathrebu, fanylion y newidiadau, gan gynnwys yr amserlen, a'r rheswm drostynt.
Wedi'i arwain gan dystiolaeth	Mae'r ffordd y caiff newidiadau i gymwysterau cyffredinol eu cynllunio a'u cyflwyno yn seiliedig ar dystiolaeth, ymchwil ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Rydym yn croesawu adborth ar y cynigion a nodir yn y strategaeth hon, ynghyd ag unrhyw awgrymiadau pellach ar gyfer gwella'r gwaith a wneir gennym.

Adeilad Q2,
Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

Printed on 75% recycled paper

© 2017 Cymwysterau Cymru